**Gwybodaeth wrth Ryddhau Cleifion**

**ar ôl triniaeth Coleman i symud braster**

**Ôl-ofal:**

- Efallai y byddwch wedi'ch cleisio a/neu bydd gennych chwydd. Mae hyn fel arfer yn ysgafn a bydd yn gwella ar ôl ychydig wythnosau.
- Efallai y bydd gennych ychydig o boen ac anghysur ysgafn – gallwch gymryd parasetamol ac ibuprofen (os ydych chi'n ei gymryd) ar gyfer y boen hon.
- Cadwch eich gorchuddion yn lân ac yn sych am 48 awr.
- Gall yr ardal y tynnwyd y braster ohoni ymddangos yn lympiog – bydd tylino'r ardal yn ysgafn yn helpu i leihau'r ymddangosiad anwastad.
- Os oes braster wedi'i dynnu o ardal eich stumog/pen-ôl, rydym yn argymell eich bod yn gwisgo dillad isaf pwrpasol i gynnal yr ardal er mwyn helpu i leihau'r chwydd.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi'ch hydradu'n dda ar ôl y llawdriniaeth.

**Cau Clwyfau:**

Os oedd angen pwythau arnoch chi, byddwch yn cael gwybod pa fath o bwythau oedden nhw.

Pwythau hydawdd: mae'r rhain yn hydoddi mewn 1-3 wythnos.

Pwythau anhydawdd: Mae angen tynnu'r rhain - byddwch yn cael gwybodaeth ynglŷn â hyn.

**Pethau i'w hosgoi:**

- Ymarfer corff egnïol a chodi pwysau trwm am 4 wythnos.
- Ysmygu (mae ysmygu yn cynyddu'r risg o gymhlethdodau).

**Cysylltwch â thîm yr Ên a'r Wyneb, yr Hwb Llawfeddygol neu eich Meddyg Teulu os oes gennych:**

- Dwymyn.
- Cochni o amgylch ardal y clwyf.
- Cynnydd amlwg mewn chwydd/poen.
- Teimlad o losgi o amgylch y clwyf.
- Gwaedu yn safle'r llawdriniaeth.
- Rhedlif/crawn parhaus o'r clwyf.
- Unrhyw gwestiynau/pryderon am eich llawdriniaeth.

## Rhifau cyswllt allweddol:

**Ysbyty Deintyddol y Brifysgol:**

Dydd Llun i Ddydd Gwener 9am - 5pm - **02921 842416**

Ar ôl 5pm neu ar benwythnosau/gwyliau banc - Ffoniwch switsfwrdd yr ysbyty ar **02920 747747** a gofynnwch am y '**Deintydd Preswyl Llawfeddygaeth y Geg ar-alwad'**

Yr Hwb Llawfeddygol (Dydd Llun – Dydd Gwener 7am – 7pm): **02921 826510 neu 02921 826348**